**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**DYDD LLUN, 27 MEHEFIN 2022**

**BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hale, S.Harris a/ac A.Llewelyn

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, C.John a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Llewelyn yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau .

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5. **EITEM**

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwywyd cynnal ymarfer caffael i gomisiynu gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar gyfer cynllun 'Camu i Fyny/Camu i Lawr'.

2. Yn dilyn y broses gaffael, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ymrwymo i gontract gyda'r cynigiwr yr ystyrir ei fod yn cynnig y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (gan ystyried safon a chost y cynigion), ar gyfer darparu gofal a chefnogaeth ar gyfer cynllun 'Camu i Fyny/Camu i Lawr.'

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol wrth brynu'r gwasanaethau hyn. Yn ogystal, bydd sefydlu'r cynllun hwn yn sicrhau bod y cyngor yn y sefyllfa orau i barhau i ddiwallu anghenion a bodloni gofynion y rheini y mae angen cefnogaeth arnynt i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol, fel y gallant symud i lety llai sefydliadol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniadau ar waith yn syth, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

## 6. TREFNIADAU AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU GOFAL CARTREF

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyo'r bwriad i roi cynllun peilot ar waith yn ardal rhwydwaith Cwm Afan Uchaf (fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd).

2. Atal Rheol 11 o Reolau Gweithdrefnau Contract y cyngor.

3. Rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ymestyn y System Prynu Deinamig am gyfnod o 12 mis, gyda'r opsiwn o'i hymestyn am 12 mis pellach, gyda'r cyfnod hwn yn amodol ar y cyngor yn gallu terfynu'r System Prynu Deinamig yn gynnar drwy ddarparu tri mis o rybudd i'r darparwyr.

4. Cymeradwyo'r cynigion i ail-gydbwyso'r farchnad gofal cartref drwy recriwtio aelodau ychwanegol i'r Tîm Lles Cymunedol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod contract cyfreithiol-rwymol yn galluogi ar gyfer parhad gwasanaethau hanfodol, wrth i swyddogion ymgymryd â chynllun peilot a datblygu argymhellion ar gyfer model gwasanaeth newydd sy'n sicrhau

bod y cyngor yn y sefyllfa orau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a bod gan y cyngor farchnad gofal cartref mwy cadarn.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniadau ar waith yn syth, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau .

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfynwyd:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

9. **TREFNIADAU CYTUNDEBOL AR GYFER Y GWASANAETH ATALIAETH A LLES (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, atal Rheol 11 o Reolau Gweithdrefnau Contract y cyngor.

2. Rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ymrwymo i gontract gyda'r Darparwr fel a fanylwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Ataliaeth a Lles am gyfnod o 12 mis, gyda'r opsiwn o ehangu'r gwasanaeth am 6 mis arall, gyda'r cyfnod hwn yn amodol ar y cyngor yn gallu dod â'r gwasanaeth i ben yn gynnar drwy ddarparu tri mis o rybudd i'r Darparwr.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod contract rhwymol-gyfreithiol sy'n galluogi ar gyfer parhau â'r gwasanaethau hanfodol hyn, wrth i swyddogion gynnal adolygiad o

wasanaethau digartrefedd a datblygu model gwasanaeth newydd sy'n galluogi ar gyfer darparu yn erbyn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniadau ar waith yn syth, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

**CADEIRYDD**